



# Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws

## Barn y cyhoedd ar gynnal diogelwch y tu allan i'r cartref a data rheolaidd Wythnos 7 (18 tan 24 Mai 2020)

*Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# Cefndir

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg dros y ffôn i ymgysylltu â'r cyhoedd i holi aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut y mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.
- Mae'r wybodaeth a gasglwyd oddi wrth 500 neu fwy o unigolion a ddewiswyd ar hap yn rhoi'r sail ar gyfer y canlyniadau a gyflwynir ym mhob adroddiad wythnosol.
- Mae'r arolwg yn ceisio darparu data sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru ac mae'r data'n cael eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Mewn rhai wythnosau, ychwanegir cwestiynau a dileu rhai eraill, yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg honno.
- Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys rhai mesurau rheolaidd a welwyd mewn adroddiadau blaenorol ochr yn ochr â chwestiynau sy'n canolbwyntio ar adfer (sut y gellir llacio mesurau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf).
- Diolch i bobl Cymru am roi eu hamser gwerthfawr i ni i gefnogi'r gwaith hwn.

# Canfyddiadau allweddol o'r wythnos hon

Cyfwelwyd â 653 o drigolion Cymru 18 oed a throsodd yn wythnos 7 yr arolwg (18 tan 24 Mai). Mae'r canfyddiadau'r wythnos hon yn canolbwyntio ar adfer, h.y. barn pobl ar sut y gallai mesurau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws gael eu llacio neu eu cryfhau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

- 72% o bobl yn meddwl bod y cyfyngiadau sydd yn eu lle i reoli'r coronafeirws "yn iawn fwy neu lai" - yn debyg i wythnos diwethaf.
- 40% o bobl yn cefnogi siopau yn ailagor yn y tair wythnos nesaf – heb newid ers wythnos diwethaf.
- 51% o bobl yn cefnogi gweithwyr nad ydynt yn hanfodol yn dychwelyd i'r gwaith yn y tair wythnos nesaf – i fyny ers wythnos diwethaf.
- 16% o bobl yn cefnogi ysgolion yn ailagor yn y tair wythnos nesaf.
- 45% o bobl sydd â phlant yn eu cartref yn poeni llawer am addysg eu plant.
- 61% o bobl yn poeni llawer am golli rhywun i'r feirws.
- 1 o bob 10 (9%) o ddynion yn meddwl y dylai digwyddiadau chwaraeon a chyngherddau allu cael eu cynnal o fewn y tair wythnos nesaf ond dim ond 3% o fenywod oedd yn meddwl hyn.
- Mae siopau elusen (50%) a thrinwyr gwallt a barbwyr (47%) yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau i ailagor pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio.
- 10% of people wear face masks most of the time when going out but half (52%) think people should be made to wear facemask as current restrictions are lifted]
- 54% o bobl o'r farn y byddai'n dderbyniol pe bai'r lefelau haint yn cynyddu ychydig wrth i'r cyfyngiadau gael eu dileu.

# Ynghylch coronafeirws

| | | |
|---|---|---|
| **A ydych yn credu bod gennych y coronafeirws neu wedi ei gael?** | Ydw | 13% |
| | Ddim yn gwybod | 6% |
| **Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael y coronafeirws?**<br><br>Nid yw'n cynnwys y rhai a atebodd 'ydw' o ran cael coronafeirws | Ddim o gwbl | 15% |
| | Ychydig | 29% |
| | Yn gymedrol | 38% |
| | Yn bryderus iawn | 19% |
| **A oes rhywun sy'n agos atoch fel aelod o'r teulu neu ffrind wedi mynd yn ddifrifol wael gyda'r coronafeirws?*** | Oes | 13% |

***mynd i'r ysbyty neu wedi marw**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Pa mor dda rydym yn ymdrin â'r coronafeirws?

A ydych yn credu bod y cyfyngiadau sydd yn eu lle i reoli'r coronafeirws yn...

**Rhy ychydig** 16%

**Yn iawn fwy neu lai** 72%

**Yn ormodol** 12%

Byddai'n well gennyf weld y cyfyngiadau symud yn parhau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal coronafeirws

**Cytuno** 52%

**Anghytuno** 32%

**Heb benderfynu** 16%

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n credu bod **Llywodraeth Cymru** yn ymateb yn dda i'r problemau a achosir gan y coronafeirws | 20% | 52% | 9% | 13% | 6% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r **GIG** yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn yn ddifrifol wael gyda'r coronafeirws | 37% | 52% | 7% | 4% | <1% |
| Rwy'n ymddiried yn yr **heddlu** i ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 24% | 55% | 7% | 10% | 4% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Y camau nesaf o ran adfer?

## Pa rai o'r canlynol sy'n dderbyniol i chi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Using a government tracking app that alerts you if you have been near someone that has coronavirus | 79% | 13% | 8% |
| Rhoi dirwy i bobl sy'n mynd ati'n fwriadol i anufuddhau i fesurau cadw pellter cymdeithasol | 94% | 4% | 2% |
| Lefelau heintiau yn codi ychydig o ganlyniad i ddileu rhai cyfyngiadau | 54% | 36% | 10% |

## Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylid gwneud i bobl barhau i gadw pellter cymdeithasol pan fyddant yn yr awyr agored | 95% | 3% | 2% |
| Dylai pobl sy'n gadael eu cartrefi gael eu profi'n rheolaidd i weld a yw'r feirws ganddynt | 64% | 22% | 13% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Y camau nesaf o ran adfer?

## Pryd rydych yn credu y dylai'r newidiadau canlynol ddigwydd*?

| | O fewn y 3 wythnos nesaf | | | Mewn mwy na 3 wythnos | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb | Dynion | Menywod | Pawb | Dynion | Menywod |
| Dylai ysgolion ailagor | 16% | 19% | 13% | 84% | 81% | 87% |
| Dylai siopau ailagor | 40% | 43% | 38% | 60% | 57% | 62% |
| Dylai bwytai, tafarndai a bariau ailagor | 11% | 13% | 9% | 89% | 87% | 91% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu dychwelyd i'r gwaith | 51% | 52% | 50% | 49% | 48% | 50% |
| Dylid caniatáu i bobl ddefnyddio mannau cyhoeddus fel parciau a thraethau yn rhydd os bydd cadw pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal | 65% | 67% | 64% | 35% | 33% | 36% |
| Dylai digwyddiadau mawr fel chwaraeon a chyngherddau allu cael eu cynnal | 5% | 9% | 3% | 95% | 91% | 97% |
| Dylid rhoi terfyn ar gadw pellter cymdeithasol | 8% | 10% | 7% | 92% | 90% | 93% |

*Data a gasglwyd 18-24 Mai

# Y camau nesaf o ran adfer?

**Pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys yn y blaenoriaethau i ailagor pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio?**
(% ie)

| | |
|---|---|
| Siopau gwella'r cartref | 80% |
| Llyfrgelloedd | 62% |
| Siopau elusen | 50% |
| Trinwyr gwallt a barbwyr | 47% |
| Siopau dillad ac esgidiau | 35% |
| Canolfannau hamdden a champfeydd | 33% |
| Ystafelloedd dangos a gwerthu ceir | 32% |
| Clybiau plant ar gyfer chwaraeon, dawns, cymdeithasu ac ati | 30% |
| Caffis a bwytai | 22% |
| Llety gwyliau (e.e. AirBnB) | 17% |
| Tafarndai a bariau | 14% |

# Masgiau wyneb

**Ar hyn o bryd, pan fyddwch yn mynd allan, a ydych yn gwisgo masg...**

| | |
|---|---|
| Y rhan fwyaf o'r amser | 10% |
| Rhywfaint o'r amser | 16% |
| Byth | 61% |
| Ddim yn berthnasol* | 12% |


* ddim yn mynd allan

**Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?**

Dylid gwneud i bobl wisgo masgiau wyneb mewn mannau cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Ie | 52% |
| Na | 31% |
| Ansicr | 17% |


# Ysgolion




I'w gwneud yn ddiogel i ysgolion ailagor, pa rai o'r mesurau hyn fyddech chi'n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Plant yn gorfod gwisgo masgiau yn yr ysgol | 31% | 53% | 16% |
| Cymryd tymheredd plant pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol | 87% | 9% | 5% |
| Plant yn mynd i'r ysgol ar lai o ddiwrnodau i gadw niferoedd y disgyblion yn isel | 82% | 12% | 6% |
| Dychwelyd i'r ysgol ar gyfer ysgolion cynradd yn unig, o leiaf am yr wythnosau cyntaf | 47% | 42% | 11% |

# Gweithleoedd




I'w gwneud yn ddiogel i bobl ddychwelyd i'r gwaith, pa rai o'r mesurau hyn fyddech chi'n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl yn gorfod gwisgo masgiau wyneb wrth weithio dan do mewn mannau a rennir | 78% | 14% | 7% |
| Ei gwneud yn ofynnol cael mesurau cadw pellter cymdeithasol ym mhob gweithle | 93% | 5% | 2% |
| Ei gwneud yn ofynnol cymryd tymheredd pobl yn y gwaith | 84% | 9% | 6% |
| Sicrhau bod profion ar gyfer y feirws ar gael yn hawdd i unrhyw un sy'n teimlo'n sâl yn y gwaith | 97% | 1% | 2% |
| Newid oriau gwaith pobl i leihau nifer y bobl sy'n gweithio ar unrhyw un adeg (e.e. gweithio mewn sifftiau) | 88% | 4% | 7% |

# Cludiant cyhoeddus a siopau

**Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?**

## Cludiant cyhoeddus


| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylid gwneud i bobl ar gludiant cyhoeddus wisgo masgiau wyneb | 87% | 8% | 5% |
| Dylai darparwyr cludiant cyhoeddus sicrhau bod bylchau diogel rhwng teithwyr | 93% | 3% | 4% |
| Ni ddylai pobl rannu ceir â phobl nad ydynt yn byw gyda nhw | 72% | 19% | 9% |

## Agor siopau

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylai pobl sy'n gweithio mewn siopau wisgo masgiau wyneb neu feisorau | 83% | 11% | 7% |
| Dylai fod yn ofynnol i siopau roi mesurau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle | 98% | 1% | <1% |

# Sut ydym yn ymddwyn?

## Yn y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod rydych chi wedi gadael eich cartref?




A ydych ar hyn o bryd yn hunanynysu oherwydd bod gennych chi neu rywun arall yn eich cartref symptomau neu oherwydd eich bod mewn grŵp risg uchel?

| | |
|---|---|
| Ydw | 30% |

# Beth rydym yn poeni amdano?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, faint y mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?

| | Ddim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Colli un o'ch anwyliaid i'r feirws | 12% | 27% | 61% |
| Llesiant eich plant*~ | 17% | 29% | 54% |
| Addysg eich plant*~ | 21% | 34% | 45% |
| Cyflwr iechyd nad yw'n gysylltiedig â'r coronafeirws | 65% | 21% | 13% |
| Colli eich swydd neu fethu dod o hyd i swydd#~ | 61% | 25% | 14% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw eich swydd yn ddiogel#~ | 45% | 34% | 21% |
| Eich arian | 61% | 25% | 14% |

## O ganlyniad i'r coronafeirws, a ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref wedi...

| | Ie |
|---|---|
| Wedi cael eu hatal o'r gwaith ar gyflog is neu ddim cyflog (e.e. ar ffyrlo) | 27% |
| Wedi cael gostyngiad sylweddol yn eu hincwm drwy gael llai o waith neu lai o oriau | 15% |
| Wedi profi unrhyw effaith ariannol arall ar y cartref oherwydd coronafeirws | 10% |

*yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant yn y cartref; ~Data heb eu pwysoli; # Nid yw'n cynnwys y rhai sy'n ateb ‘amherthnasol’

# Sut ydym yn teimlo?

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n iach** | **Pa mor iach ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Afiach iawn; 10 = Iach iawn | 5% | 33% | 63% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n hapus** | **Pa mor hapus ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn gwbl hapus | 5% | 25% | 70% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n bryderus** | **Pa mor bryderus ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn gwbl bryderus | 46% | 36% | 18% |

| | | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer corff** | **Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i'ch gwneud allan o wynt)?** | 24% | 37% | 40% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut ydym yn teimlo?

**Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml rydych chi wedi teimlo'n...**

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 64% | 40% |
| Weithiau | 26% | 41% |
| Yn aml | 7% | 14% |
| Bob amser | 4% | 5% |

---

**Dros yr wythnos ddiwethaf, faint y mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?**

Eich iechyd a llesiant meddyliol

| | |
|---|---|
| Ddim o gwbl | 49% |
| Ychydig | 39% |
| Llawer | 12% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Ymholiadau


Email: generalenquiries@wales.nhs
Ebost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

Tel: 02920 227744

Data a Dadansoddeg – Yr Athro Karen Hughes
Datblygu'r Arolwg - Yr Athro Mark A. Bellis
Cymorth Dadansoddi – Dr Freya Glendinning

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**
Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall,
Caerdydd CF10 4BZ

**Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being**
Floor 5, Public Health Wales,
Number 2 Capital Quarter, Tyndall Street,
Cardiff CF10 4BZ

Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org


I gael gwybodaeth gyffredinol am sut i ofalu amdanoch eich hun, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws ewch i:

**icc.gig.cymru/sutwytti**

